

BRO DWYNWEN 15/06/2025
Sul y Drindod – Trinity Sunday



Collect 81

Hollalluog a thragwyddol Dduw, rhoddaist ras i ni dy weision, gan gyffesu ac arddel y wir ffydd, i gydnabod gogoniant y Drindod dragwyddol ac addoli'r Undod yn nerth y dwyfol fawredd: cadw ni'n ddiysgog yn y ffydd hon, a'n hamddiffyn byth rhag pob trallod; trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth.

Collect 81

Almighty and everlasting God, you have given us your servants grace, by the confession of a true faith, to acknowledge the glory of the eternal Trinity and in the power of the divine majesty to worship the Unity: keep us steadfast in this faith, that we may evermore be defended from all adversities; through Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever.

Diarhebbion 8. 1-4, 22-31

Onid yw doethineb yn galw, a deall yn codi ei lais? Y mae'n sefyll ar y mannau uchel ar fin y ffordd, ac yn ymyl y croesffyrdd; Y mae'n galw gerllaw'r pyrrth sy'n arwain i'r dref, wrth y fynedfa at y pyrrth: "Arnoch chwi, bobl, yr wyf yn galw, ac atoch chwi, ddynolryw, y daw fy llais.

"Lluniodd yr ARGLWYDD fi ar ddechrau ei waith, yn gyntaf o'i weithredoedd gynt. Fe'm sefydlwyd yn y gorffennol pell, yn y dechrau, cyn bod daear. Ganwyd fi cyn bod dyfnderau, cyn bod ffynhonnau yn llawn dŵr. Cyn gosod sylfeini'r mynyddoedd, cyn bod y brynau, y ganwyd fi, cyn iddo greu tir a meysydd, ac o flaen pridd y ddaear. Yr oeddwn i yno pan oedd yn gosod y nefoedd yn ei lle ac yn rhoi cylch dros y dyfnder, pan oedd yn cadarnhau'r cymylau uwchben ac yn sicrhau ffynhonnau'r dyfnder, pan oedd yn gosod terfyn i'r môr, rhag i'r dyfroedd anufuddhau i'w air, a phan oedd yn cynllunio sylfeini'r ddaear. Yr oeddwn i wrth ei ochr yn gyson, yn hyfrydwch iddo beunydd, yn ddifyrrwch o'i flaen yn wastad, yn ymddifyrru yn y byd a greodd, ac yn ymhyfrydu mewn pobl.

Proverbs 8. 1-4, 22-31

Does not wisdom call, and does not understanding raise her voice? On the heights, beside the way, at the crossroads she takes her stand; beside the gates in front of the town, at the entrance of the portals she cries out: 'To you, O people, I call, and my cry is to all that live.

The Lord created me at the beginning of his work, the first of his acts of long ago. Ages ago I was set up, at the first, before the beginning of the earth. When there were no depths I was brought forth, when there were no springs abounding with water. Before the mountains had been shaped, before the hills, I was brought forth - when he had not yet made earth and fields, or the world's first bits of soil. When he established the heavens, I was there, when he drew a circle on the face of the deep, when he made firm the skies above, when he established the fountains of the deep, when he assigned to the sea its limit, so that the waters might not transgress his command, when he marked out the foundations of the earth, then I was beside him, like a master worker; and I was daily his delight, rejoicing before him always, rejoicing in his inhabited world and delighting in the human race.

Salm 8

O ARGLWYDD, ein Iôr, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear! Gosodaist dy ogoniant uwch y nefoedd, codaist amddiffyn rhag dy elynion o enau babanod a phlant sugno, a thawelu'r gelyn a'r dialydd.

Pan edrychaf ar y nefoedd, gwaith dy fysedd, y lloer a'r sêr, a roddaist yn eu lle, beth yw meidrollyn, iti ei gofio, a'r teulu dynol, iti ofalu amdano?

Eto gwnaethost ef ychydig islaw duw a'i goroni â gogoniant ac anrhydedd. Rhoist iddo awdurdod ar waith dy ddwylo, a gosod popeth dan ei draed: defaid ac ychen i gyd, yr anifeiliaid gwylltion hefyd, adar y nefoedd, a physgod y môr, a phopeth sy'n tramwyo llwybrau'r dyfroedd.

O ARGLWYDD, ein Iôr, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear!

Psalm 8

O Lord, our Sovereign, how majestic is your name in all the earth!
You have set your glory above the heavens. Out of the mouths of babes and infants you have founded a bulwark because of your foes, to silence the enemy and the avenger.

When I look at your heavens, the work of your fingers, the moon and the stars that you have established; what are human beings that you are mindful of them, mortals that you care for them?

Yet you have made them a little lower than God, and crowned them with glory and honour. You have given them dominion over the works of your hands; you have put all things under their feet, all sheep and oxen, and also the beasts of the field, the birds of the air, and the fish of the sea, whatever passes along the paths of the seas.

O Lord, our Sovereign, how majestic is your name in all the earth!

Rhufeiniad 5. 1-5

Am hynny, oherwydd ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae gennym heddwch â Duw trwy ein Harglwydd Iesu Grist. Trwyddo ef, yn wir, cawsom ffordd, trwy ffydd, i ddod i'r gras hwn yr ydym yn sefyll ynddo. Yr ydym hefyd yn gorfoleddu yn y gobaith y cawn gyfranogi yng ngogoniant Duw. Heblaw hynny, yr ydym hyd yn oed yn gorfoleddu yn ein gorthrymderau, oherwydd fe wyddom mai o orthrymder y daw'r gallu i ymddâl, ac o'r gallu i ymddâl y daw rhuddin cymeriad, ac o gymeriad y daw gobaith. A dyma obaith na chawn ein siomi ganddo, oherwydd y mae cariad Duw wedi ei dywallt yn ein calonnau trwy'r Ysbryd Glân y mae ef wedi ei roi i ni.

Romans 5. 1-5

Therefore, since we are justified by faith, we have peace with God through our Lord Jesus Christ, through whom we have obtained access to this grace in which we stand; and we boast in our hope of sharing the glory of God. And not only that, but we also boast in our sufferings, knowing that suffering produces endurance, and endurance produces character, and character produces hope, and hope does not disappoint us, because God's love has been poured into our hearts through the Holy Spirit that has been given to us.

Ioan 16. 12-15

"Y mae gennyf lawer eto i'w ddweud wrthyh, ond ni allwch ddal y baich ar hyn o bryd. Ond pan ddaw ef, Ysbryd y Gwirionedd, fe'ch arwain chwi yn yr holl wirionedd. Oherwydd nid ohono'i hun y bydd yn llefaru; ond yr hyn a glyw y bydd yn ei lefaru, a'r hyn sy'n dod y bydd yn ei fynegi i chwi. Bydd ef yn fy ngogoneddu i, oherwydd bydd yn cymryd o'r hyn sy'n eiddo i mi ac yn ei

fynegi i chwi. Y mae pob peth sydd gan y Tad yn eiddo i mi. Dyna pam y dywedais ei fod yn cymryd o'r hyn sy'n eiddo i mi ac yn ei fynegi i chwi.

John 16. 12-15

'I still have many things to say to you, but you cannot bear them now. When the Spirit of truth comes, he will guide you into all the truth; for he will not speak on his own, but will speak whatever he hears, and he will declare to you the things that are to come. He will glorify me, because he will take what is mine and declare it to you. All that the Father has is mine. For this reason I said that he will take what is mine and declare it to you.

Post Communion Prayer 82

Almighty and eternal God,
you have revealed yourself as Father, Son and Holy Spirit,
and live and reign in the perfect unity of love:
hold us firm in this faith,
that we may know you in all your ways
and evermore rejoice in your eternal glory;
holy and eternal Trinity,
one God, now and for ever.

Ôl Gymun 82

Hollalluog a thragwyddol Dduw,
datguddiaist dy hun
yn Dad, Mab ac Ysbryd Glân,
ac yr wyt yn byw ac yn teyrnasu
yn undod perffaith cariad:
cynnal ni'n ddiysgog yn y ffydd hon,
fel y bo i ni dy adnabod yn dy holl ffyrdd
a llawenhau byth yn dy ogoniant tragwyddol,
sanctaidd a thragwyddol Drindod,
yn un Duw, yn awr ac am byth.